# Grŵp Trawsbleidiol ar Diabetes
# Cross Party Group on Diabetes

12.10.22. 12:15 – 13:15
Cofnodion

**Cadeirydd | Chair:** Jayne Bryant AS
**Is Cadeirydd | Vice Chair** Rhun ap Iorwerth AS
**Ysgrifennydd | Secretary:** Diabetes UK Cymru, Mathew Norman, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus

**Ymddiheuruadau | Apologies:**

- Peredur Owen-Griffiths AS
- Samuel Kurtz AS
- Scott Crawley, Cydgysylltydd Traed Diabetig Cenedlaethol

**Yn bresennol | Attendance**

- Jayne Bryant AS
- Mark Isherwood AS
- Libby o swyddfa Jayne Bryant AS
- Rhys o swyddfa Rhun ap Iorwerth AS
- Lee Gonzales o swyddfa Joel James AS
- Rachel Burr, Cyfarwyddwr Diabetes UK Cymru
- Mathew Norman, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Diabetes UK Cymru
- Tess Saunders, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Brenhinol Podiatreg
- Dr Rob Lee, Is-Gadeirydd AWDPRG
- Michelle Moseley, Cynghorydd Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Coleg Nyrsio Brenhinol
- Dr Carys Marshall, Prif Seicolegydd Clinigol, BIP Caerdydd a'r Fro
- Dr Rose Stewart, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol ac Arweinydd Seicoleg Diabetes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Agenda:**

| Time \| Amser | Pwnc | Topic |
|---|---|---|
| 11:45 - 12:15 | 1. Cyflwyniadau | 1. Introductions |
| 12:20 | 2. Materion yn codi o gyfarfod 5 Gorffennaf 2022 | 2. Matters arising from 5th of July 2022 meeting. |
| 12:25 | 3. Arolwg gyda phobl yn byw gyda diabetes gan DUK | 3. Missing to Mainstream Diabetes UK PLWD Survey |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymru ar "Missing to Mainstream" | |
| 12:45 | 4. Holi ac ateb | 4. Q&A |
| 12:50 | 5. Trafodaeth Agored: Pryderon ynghylch Costau Byw a Phwysau'r Gaeaf | 5. Open Discussion: Concerns relating to the Cost of Living and Winter Pressures |
| 13:10 | 6. UFA | 6. AOB |
| 13.15 | Cau - rydym bellach wedi cytuno ar ddyddiadau tri chyfarfod nesaf y Grŵp 7. Trawsbleidiol | 7. Close – We have agreed dates now for the next 3 CPGs |

1. **Arolwg gyda phobl yn byw gyda diabetes gan DUK Cymru ar "Missing to Mainstream"| Missing to Mainstream Diabetes UK PLWD Survey (20 min)**

| | |
|---|---|
| - Cyflwyniad gan Mathew Norman o Diabetes DU Cymru | - Presentation from Mathew Norman from Diabetes UK Cymru |

**Y prif ganfyddiadau:**

- Dywedodd 81 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi cael trafferth rheoli eu diabetes.
- Dywedodd 71.8 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt erioed wedi cael cymorth seicolegol i helpu i reoli eu diabetes
- Mae 20.4 y cant o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth yn cael cymorth seicolegol ar gyfer eu diabetes ar hyn o bryd.
- Dywedodd 90 y cant o'r ymatebwyr sy'n cael cymorth ar hyn o bryd eu bod naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn â'u cymorth.
- Dywedodd 38.5 y cant o'r holl ymatebwyr eu bod wedi cael anhawster o ran cael cymorth seicolegol.
- Roedd llawer o'r rhwystredigaethau a leisiwyd yn ymwneud â'r ffaith nad oes cymorth seicolegol ar gael, diffyg apwyntiadau/cyswllt â meddyg teulu, byth yn cael cynnig y cymorth neu nad oedd byth yn cael ei drafod.
- Dywedodd 50.6 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt yn gwybod ble i fynd os bydd angen cymorth arnynt.
- Dywedodd 51.2 y cant o'r ymatebwyr, os byddai angen cymorth arnynt ar gyfer eu hiechyd meddwl sy'n gysylltiedig â diabetes, y byddent yn siarad â'r GIG yn gyntaf, ac yna 28.7 y cant a ddywedodd y byddent yn siarad â theulu, yna 10.3 y cant a ddywedodd y byddent yn siarad â Diabetes UK.
- Dywedodd 37.4 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi profi'r stigma mewn perthynas â'u diabetes.
- Dywedodd 77.6 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn meddwl nad yw'r cyhoedd yn deall diabetes o gwbl neu ddim yn dda iawn. Dim ond 1.2 y cant a ddywedodd eu bod yn meddwl bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth dda o ddiabetes.

- Dywedodd 25.9 y cant o’r ymatebwyr eu bod yn meddwl nad yw gweithwyr iechyd proffesiynol (cyffredinol) yn deall diabetes o gwbl neu ddim yn dda iawn. Mae 47.1 y cant yn meddwl bod ganddyn nhw rywfaint o ddealltwriaeth. Mae 27.0 y cant yn meddwl bod ganddynt ddealltwriaeth dda neu wych.

**Prif bwyntiau:**

- Mae arnom angen mwy o fynediad at gymorth seicolegol a dealltwriaeth o ble i ddod o hyd i gymorth.
- Roedd llawer o'r rhwystredigaethau a leisiwyd yn ymwneud â'r ffaith nad oes cymorth seicolegol ar gael, diffyg apwyntiadau/cyswllt â meddyg teulu, byth yn cael cynnig y cymorth/nad oedd byth yn cael ei drafod.
- Maent yn fodlon/bodlon iawn pan fyddant yn cael cymorth seicolegol.
- Dywedodd dros draean o'r ymatebwyr eu bod wedi profi'r stigma mewn perthynas â'u diabetes.
- Mae angen gwell dealltwriaeth yn gyffredinol o ddiabetes ar lefel HCP.
- Mae angen lefel uwch o ddealltwriaeth gan y cyhoedd, yn enwedig o ran gwahanol fathau a sut i reoli'r cyflwr.
- Mae angen ystyried yr effaith ar deulu, ffrindiau a gweithleoedd.

## 2. Holi ac ateb | C&A (10 munud)

| | |
|---|---|
| Cwestiynau i DUK gan y mynychwyr yn bersonol ac ar-lein | Questions to DUK from the attendees in person and virtually |

- Nododd y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn bresennol eu siom bod rhai pobl sy'n byw gyda diabetes yn teimlo nad oedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn teimlo empathi am eu cyflwr.
- Dywedodd Mark Isherwood AS fod ymatebion gan bobl sy'n byw gyda diabetes yn atgoffa rhywun o'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau prinnach a llai adnabyddus. Nododd fod rhai o'r pryderon a godwyd ynghylch cyflogaeth yn torri'r gyfraith a bod angen cefnogaeth/dealltwriaeth o hawliau pobl sy'n byw gyda diabetes.
- Cododd Rob Lee y pryderon ynghylch stigma, yn enwedig i'r rhai sy'n byw gyda diabetes math 2.
- Cytunodd y grŵp trawsbleidiol y dylid ysgrifennu llythyr at y Dirprwy Weinidog Lynne Neagle AS i dynnu sylw at ganlyniadau'r arolwg/ymchwil i gefnogi galwadau am fwy o fynediad ac ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

## 3. Trafodaeth Agored: Pryderon ynghylch Costau Byw a Phwysau'r Gaeaf | Open Discussion: Concerns relating to the Cost of Living and Winter Pressures (20 munud)

| | |
|---|---|
| Bydd pawb sy'n bresennol yn rhannu eu pryderon am argyfyngau costau byw i'r rhai sy'n byw gyda diabetes. Gallai'r drafodaeth arwain at gamau i'r Grŵp eu cymryd a/neu Diabetes UK Cymru. | All attendees will share their concerns about the cost of living crises for those living with diabetes. The discussion could lead to actions for the CPG to undertake and/or Diabetes UK Cymru. |

- Agorodd Rachel Burr o DUK Cymru y drafodaeth a mynegodd bryderon gan bobl sy'n byw gyda diabetes ynghylch cost bwyta'n iach a rheoli eu diabetes yn ystod y cyfnod anodd hwn.

- Yn sgil pryderon a godwyd ynghylch deall bwydydd gwerth da sy'n helpu i reoli diabetes, cododd Lee Gonzalez eitemau fel uwd a sinamon y mae'n eu defnyddio i fwydo'i fab ac yn helpu i reoli lefelau glwcos yn y gwaed.

- Nodwyd bod eitemau i helpu gyda lefelau siwgr isel fel hoff ddiodydd meddal neu rai adanabyddus sy’n helpu yn mynd yn rhy ddrud.
- Mynegwyd pryderon ynghylch effaith prydau ysgol am ddim, yn enwedig ansawdd bwyd wrth i brisiau barhau i godi a chyllidebau yn aros yr un fath.
- Nodwyd math newydd/rhyfedd o ddiabetes sydd wedi'i gysylltu â phobl sy'n byw gyda Covid hir, lle nad yw'r math yn glir.
- Trafodwyd deiet llysieuol a diabetes, gyda rhai yn nodi nad oedd cymorth ar gyfer deiet amrywiol ar gael yn eang ac y byddai mwy yn cael ei groesawu i gynorthwyo pobl ag anghenion deietegol gwahanol.
- Nodwyd bod taliadau ar gyfer y costau uwch sy'n gysylltiedig â chyflyrau wedi'u codi yn y Grŵp Trawsbleidiol ar Diabetes fel modd o gefnogi pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor.
- Mynegwyd pryderon am bobl a gafodd ddiagnosis o ddiabetes yn ystod Covid-19, lle na chafwyd cefnogaeth a dealltwriaeth glir o’r cyflwr i’r rhai â diagnosis newydd. Croesewir gofal wedi’i lywio gan drawma a chydraddoldeb gofal i gefnogi pobl sydd newydd gael diagnosis yn ystod cyfnod anodd.
- Croesewir hefyd gefnogaeth ynghylch cyflyrau a all ddeillio o ddiabetes. Trafodaethau ynghylch mynediad at optegwyr da a mynediad at brofion mewn fferyllfeydd cymunedol.

## 4. UFA

| | |
|---|---|
| Digwyddiad y Senedd Peter Baldwin yn 21 oed ar 6 Rhagfyr gyda'r nos (18:00 – 20:00).<br>○ Ddiweddariad Ymgyrch 4Ts<br>○ Cyflwyniad Astudiaeth ELSA<br>○ Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w gadarnhau | Peter Baldwin 21st Senedd Event on the evening of the 6th of December (18:00 – 20:00).<br>○ 4Ts Campaign Update<br>○ ELSA Study Presentation<br>○ Minister for Health & Social Services tbc |

## 5. Cau | Close

| | |
|---|---|
| Cyfarfod nesaf - Dyddiad yw:<br>○ 18.01.23<br>○ 26.04.23<br>○ 28.06.23<br><br>Ewch ag unrhyw fwyd dros ben yn ôl gyda chi i'r swyddfa/cartref os yn bersonol | Next meeting dates are:<br>○ 18.01.23<br>○ 26.04.23<br>○ 28.06.23<br>Take any left-over food back with you to office/home if in person |

- Diwrnod Diabetes y Byd ar y 14 Tachwedd, felly mae Jayne Bryant AS yn bwriadu cyflwyno Datganiad Barn ar gyfer y diwrnod (wythnos ynghynt) ac

efallai y bydd peth gweithredu gan DUK Cymru yn y Senedd yr wythnos flaenorol, gan weithio gyda thîm Jayne Bryant MS i drefnu hynny.

DIABETES UK
DEALL DIABETES. BRWYDRO DIABETES.
KNOW DIABETES. FIGHT DIABETES.
CYMRU